WELSH PODCAST TRANSCRIPT

Helo, a chroeso i bodlediad y Gronfa Loteri Fawr.

Cronfa Loteri Fawr: Trwy ein rhaglen Arwyn yn Ôl 2 mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi dyfarnu dros £25 miliwn i fwy na 50,000 o gyn-filwyr yr Ail Ryfel Byd, gweddwon, gwŷr a gwragedd a gofalwyr ledled y DU i dychwelyd i'r lleoedd y buont hwy neu aelodau o'u teulu yn y gad.

Mae Dydd Sul y Coffa yn darparu amser i bobl fyfyrio ar yr aberth mawr y gwnaeth ein cyn-filwyr drosom.

Bydd Doug Mayman yn teithio'n ôl i Lucheux, Normandi gyda'i ferch ym mis Ebrill i olrhain ei olion troed gan ddefnyddio'r dyddiaduron y gwnaeth eu cadw yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'n dweud wrthym am ei brofiad o'r rhyfel a pham mae eisiau dychwelyd i'r lle y bu yn y gad.

Doug Mayman “Glaniais fel aelod o'r 15fed 19eg Hwsariaid Brenhinol, cyn-gatrawd gwŷr meirch sydd bellach yn gatrawd tanciau cyflym ysgafn a hyfforddir yn effeithiol mewn cad-drefniannau dros dir. Fe lanion ni ar Draeth Oren ym mis Awst 1944. A Grouches-Luchuel oedd enw'r pentref yr oeddem ynddo.

Fel y trodd allan, nid am gyfnod byr yr oedden ni yno - gan i gynifer o danciau gael eu bwrw, cymerodd y cerbydau atgyweirio amser hir i'n cyrraedd ni, ac roedden ni yno am bythefnos neu fwy. Yn ystod yr amser hwnnw ni oedd yr unig bobl o dramor yn y pentref a daethom i nabod y pentrefwyr, rhai ohonynt yn eithaf da. Gadawodd dynes yn y pentref i ni gysgu yn ei hysgubor, a chwrddon ni â rhai o'r pentrefwyr eraill yno.

Enw un ddynes benodol y cwrddom â hi oedd Vera Brown, a oedd wedi bod yn asiant dwbl, a dywedodd wrthym i gyd am feddiannaeth yr Almaenwyr dros y pentref. Felly, bydd rhan o'n taith yn bendant yn dychwelyd i'r pentref hwnnw i weld p'un a yw unrhyw un yn ein cofio ni. Rwy'n cofio digon ohono'n bendant, er iddo ddigwydd amser maith yn ôl.

Felly, nid ydym yn dychwelyd i lawenhau dros y rhyfel gan nad ydw i'n credu mai rhywbeth gogoneddus i'w wneud oedd ymladd, ond bu'n rhaid i ni ei wneud e. A'r hyn y bydd yn ei olygu i mi yw os galla i ddod o hyd i bobl yn y pentref. Yr hyn a fydd yn fy helpu yw yr ysgrifennais ddyddiadur bob dydd, mae gennyf y rhain o hyd a byddant yn dweud wrthyf yn union ble'r oeddwn i ar adegau gwahanol drwy gydol yr ymladd, felly ni fydd yn anodd, hyd yn oed ar ôl yr holl flynyddoedd, i ddod o hyd i'r lleoedd yr wyf eisiau mynd iddynt.

Ar y pwynt hwnnw teimlaf ei fod yn briodol talu teyrnged i holl aelodau eraill ein catrawd. Rwy'n credu yr oeddem yn lwcus iawn, yn wahanol i'r hyn sy'n cael ei dybio'n aml roedd gennym lawer iawn o barch at, a ffydd yn, ein swyddogion. Gwnaethant i gyd arwain o'r blaen. Roeddent i gyd yn bobl ragorol; o ran fy rheng fy hun, roeddem i gyd wedi'n consgriptio a heb fod yn filwyr proffesiynol, ac eto roedd lefel uchel iawn o ddewrder a gamaraderie yno. Ac oherwydd hynny i gyd, edrychaf ymlaen at ddychwelyd i'r ardaloedd hynny, nid o reidrwydd oherwydd brwydrau'r cyfnod hwnnw ond i dalu rhyw fath o deyrnged i'r bobl fel fi a gafodd eu dal yn y rhyfel ac a wnaeth eu gorau glas i sicrhau eu bod yn cynnal eu cymheiriaid.

Cronfa Loteri Fawr: Mae Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr, Peter Wanless, yn siarad am yr hyn y mae Arwyr yn Ôl yn ei olygu iddo fe ac i'r Gronfa Loteri Fawr.

Peter Wanless: "I raddau helaeth Arwyr yn Ôl yw'r rhaglen y mae pobl yn ei hoffi orau gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae wedi'i anelu at unigolion a sicrhaodd y rhyddid y mae pob un ohonom yn elwa ohono yn yr oes bresennol. Wrth i ni nesáu at ddydd Sul y Coffa, rwyf bob amser yn meddwl

am fy nhad-cu a gymerodd ran yn y glaniadau Dydd-D, a buodd e bob amser yn siarad â am y profiadau rhyfeddol hynny pan oeddwn yn tyfu i fyny. Buodd e farw cyn i'r rhaglen Arwyr yn Ôl ddod i fodolaeth. Mae'n drist na chafodd e gyfle i elwa o daith o'r math hwn.

Mae'r llythyron o ddiolch a dderbyniwn gan nifer mawr o'r unigolion sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen hon yn rhyfeddol. Rwyf wedi derbyn llythyron personol hynod o emosiynol, yn aml iawn wedi'u hysgrifennu'n fanwl iawn, yn amlinellu'r emosiynau a'r gweithredoedd y mae pobl wedi'u profi yn ystod yr ymweliadau hyn. Mae'n ostyngedig i dderbyn diolch fel hyn oherwydd, a bod yn gwbl onest dyna'r lleiaf y mae'r arwyr hyn yn ei haeddu."

Cronfa Loteri Fawr: Mae Ted Hedges, a wasanaethodd yn Rheolaeth Amddiffyn y Glannau y Llu Awyr Brenhinol yn hela'r llongau tanfor o'r Almaen a dargedodd Gonfoiau'r Cynghreiriaid, yn siarad â ni am ei daith yn ôl i'r Asores a ariannwyd drwy Arwyr yn Ôl.
Cyn iddo adael ym 1944, roedd yr Americanwyr wedi dechrau gweithio ar y cyd gyda'n lluoedd ni i adeiladu canolfan i'r llu awyr sydd bellach yn un o ganolfannau pwysig NATO.

Ted Hedges: “Y brif dasg yw ymweld â fy ffrindiau, neu ffrindiau a adawyd yn y fynwent. Mae'n anodd iawn esbonio wrth unrhyw un sut rydych yn teimlo ar y fath achlysur. Rydych yn gweld eu hwynebau o hyd; rydych yn dal i glywed eu lleisiau a'r amseroedd y gwnaethoch eu treulio gyda nhw, efallai dim ond rhai wythnosau gyda rhai ohonynt. Nid ydynt byth yn marw, maen nhw yno drwy'r amser. Ac mae cerdded o gwmpas ac ymweld â phob bedd sydd yn y fynwent heddiw, ac mae 47 o feddau yno, yn rhywbeth y mae angen i chi ei wneud.

Pan adewais y fynwent nid oedd unrhyw amheuaeth fy mod yn teimlo eu bod nhw'n dal i fyw yn y cof cyhyd ag y byddaf yn eu cofio.

Ymwelais â'r fynwent dair gwaith. Y tro olaf gadawais mewn dagrau.

Dros y deng mlynedd diwethaf rwyf i, mewn cydweithrediad â rhywun o Ganada, wedi helpu i ysgrifennu llyfr ar weithgareddau'r sgwadronau Fortress yn Yr Asores, a diben y llyfr hwnnw oedd cofnodi'r aberth mawr a wnaeth bob un o'r bobl hynny a hefyd bod yna cofnod o'r hyn y gwnaethant ei gyflawni, yr hyn a effeithiodd arnynt a'u bod yn dal i fyw yn ein hatgofion, y rhai ohonom a oroesodd.”

Cronfa Loteri Fawr: Os oes gennych chi neu rywun rydych yn ei adnabod ddiddordeb mewn ymgeisio i'r rhaglen Arwyr yn Ôl, ffoniwch ein llinell gymorth ar 0845 00 00 121, neu ewch i'r wefan www.biglotteryfund.org.uk/heroesreturn.

www.biglotteryfund.org.uk/heroesreturn.
Ond brysiwch, 31 Ionawr 2012 yw'r terfyn amser ymgeisio ar gyfer teithiau hyd at 31 Rhagfyr 2012. Mae grantiau ar gyfer y costau teithio sy'n gysylltiedig â'r cyfryw deithiau'n amrywio o £150 i tua £5,500.

Gallwch danysgrifennu i bodlediad y Gronfa Loteri Fawr ar iTunes neu ein dilyn ni ar Twitter @BigLotteryFund neu os ydych yn ein hoffi ni, 'hoffwch' ni ar ein tudalen Facebook!

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu adborth ar y podlediad hwn, anfonwch e-bost atom yn: audio.visual@biglotteryfund.org.uk